OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 724 (Cy. 141)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU TRWYDDEDU (MOROL), CYMRU LLYGREDD MOROL, CYMRU

Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2018

Gwnaed - - - - 11th Mehefin 2018
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 14th Mehefin 2018
Yn dod i rym - - 5th Gorffennaf 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas ag atal, lleihau a rheoli gwastraff(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o'r Ddeddf honno.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Gorffennaf 2018.

Diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011

2.—(1) Mae Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011(**4**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(**1**) Yn rhinwedd adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68) mewn perthynas ag unrhyw fater, neu at unrhyw ddiben, os ydynt wedi eu dynodi mewn perthynas â'r mater hwnnw, neu at y diben hwnnw.
(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3 a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).
(**3**) O.S. 2010/1552.
(**4**) O.S. 2011/559 (Cy. 81), diwygiwyd gan O.S. 2016/690 (Cy. 188).

(2) Yn erthygl 3 (dehongli), yn y diffiniad o "y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff" *("the Waste Framework Directive")*, yn lle "fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Comisiwn (UE) 2015/1127", rhodder "fel y'i diwygwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (UE) 2017/997(**5**)".

Dirymiad

3. Dirymir Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2016(**6**).

Lesley Griffiths
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynlluno a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

11th Mehefin 2018

(**5**) OJ Rhif L 150, 14.6.2017, t. 1.
(**6**) O.S. 2016/690 (Cy. 188).

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 ("Gorchymyn 2011"), sy'n cyfeirio at Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 19 Tachwedd 2008 ar wastraff ac yn diddymu Cyfarwyddebau penodol (OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t. 3.) ("y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff").

Diwygiwyd y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff gan Reoliad y Cyngor (UE) 2017/997 dyddiedig 8 Mehefin 2017 sy'n diwygio Atodiad III i Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y nodwedd beryglus HP 14 'Ecowenwynig' (OJ Rhif L 150, 14.6.2017, p. 1).

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r cyfeiriad at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn erthygl 3 o Orchymyn 2011 i gyfeirio at y Gyfarwyddeb fel y'i diwygwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (UE) 2017/997.

Mae erthygl 3 yn dirymu Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n deillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.